Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Gynradd Gymunedol Talyllychau nos Fawrth 5 Mehefin am 7.30pm.
Roedd y canlynol yn bresennol: Y Cynghorwyr John Williams (Cadeirydd), Janine Roberts, Marged Bowen a Jane Morgan (Clerc). Ymddiheuriadau: Rhys Williams, y Cynghorydd Sir Joseph Davies.
Ni nodwyd unrhyw Ddatganiad o Fuddiant.
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.
Materion sy'n codi.
Y Cae Cymunedol. I'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.
Rheoli Traffig. Cynhaliwyd cyfarfod safle gydag adran Rheoli Traffig Cyngor Sir Gâr, ac roedd y Cynghorydd Sir Joseph Davies, Nigel Lovatt a Jane Morgan (Clerc) yn bresennol. Ymweliad arall â'r safle i gael ei drefnu er mwyn trafod Mesurau Tawelu Traffig ar y B4302.
Aelodaeth o'r ICCM. Cytunwyd y dylid ymaelodi â'r Sefydliad ar gyfer Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd am ffi o £90.00.
Hywel Dda. Dosbarthwyd yr Holiadur Ymgynghori.
Hywel Dda – digwyddiad Galw Heibio yn Neuadd Goffa Llandybie 24.05.2018. Roedd Marged Bowen, Janine Roberts a Jane Morgan (Clerc) yn bresennol. Cafwyd adroddiad gan Marged Bowen.
Cytunwyd y dylid anfon llythyr yn gwrthwynebu cau'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yng Nglangwili, Caerfyrddin. Cytunwyd y dylid anfon copi o'r llythyr at y Cynghorau Cymuned Lleol canlynol, i'w sylw: Manordeilo a Salem, Llansadwrn, Llangadog, Llanymddyfri, Myddfai, Cil-y-cwm. Llanddeusant, Cynwyl Gaeo a Llansawel.
Gwiriwyd y Datganiad o Gyfrifon gan Janine Roberts. Balans y cyfrif 25.04.2018 – £3,946.22; 24.05.2018 – £6,486.46.
Cafwyd taliad TAW 18.05.2018 – £285.20.
Cafwyd taliad Praesept 30.04.2018 – £2,666.66.
Gohebiaeth
Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol.
Trywydd. Cyfieithu mis Ebrill £34.80. D.L. Williams. Eitemau ar gyfer y diffibriliwr £32.83.
M & J Maintenance. Torri'r glaswellt ym Mynwent Eglwys Sant Mihangel. £430.00.
Alzheimer's Research UK £20.00 er cof am Steve Upson.
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi £31.40. Gan fod y taliadau yn amrywio erbyn hynny, roedd angen trafod dull ar gyfer talu cyflog y Clerc y mis nesaf.
Cyfleusterau cyhoeddus Talyllychau. Llythyr gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn nodi y byddai'n gwneud y trefniadau priodol ar gyfer cau'r cyfleusterau cyhoeddus, yn unol â'r penderfyniad blaenorol a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol, a hynny oherwydd nad oedd y Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i gael y cyfleusterau cyhoeddus wedi'u trosglwyddo i'w ofal.
Llythyr gan Gyngor Sir Gâr Ynghylch llwybrau tramwy. Cytunwyd y dylai'r Clerc wneud cais am fapiau o'r ardal, gyda'r llwybrau a'r llwybrau ceffylau wedi'u nodi arnynt a'u rhifo.
Cafodd yr ohebiaeth ganlynol ei dosbarthu a'i thrafod:
Yr Urdd. Gwahodd Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru i Sir Gâr yn 2021. Byddai cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yn Neuadd Gwendraeth, Dre-fach, ar ddydd Llun 25 Mehefin 2018 am 7pm.
Apêl Carmarthen Shopmobility Caerfyrddin.
Seafarers UK. Chwifiwch y Lluman Coch ar gyfer Diwrnod y Llynges Fasnachol 03.09.2018.

Llythyr gan Gyngor Sir Gâr Ynghylch: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033. Galw am safleoedd posibl. Y dyddiad cau oedd 29.08.2018 am 2pm.
Llythyr gan Gyngor Sir Gâr Ynghylch: Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Ffioedd Claddu Plant.
Llythyr ar ran Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Fforymau Craffu Sir Gaerfyrddin, Cyngor Sir Gâr *Clerks & Councils Direct*.
Cywaith Cynllunio Cymru. Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.
Llywodraeth Cymru. Hysbysiad Preifatrwydd Cronfa Ddata Cynghorau Cymuned a Thref. Anfonwyd ymlaen at yr holl Gynghorwyr.
Rheoliadau Ariannol ac Archebion Sefydlog i'w rhoi ar yr Agenda ar gyfer y mis nesaf.
Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Y Clerc i wirio a yw'r Cyngor Cymuned wedi'i eithrio, ond Cytunwyd y dylid talu'r ffi o £40.00, pe byddai angen.
Trafodwyd Hysbysiadau Preifatrwydd ar gyfer Staff, Cynghorwyr a Deiliaid Rolau, ac anfonwyd copïau o'r Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Cynghorwyr at yr holl Gynghorwyr. Anfonwyd yr Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer staff at y Clerc.
Trafodwyd yr Hysbysiad Preifatrwydd cyffredinol a'r Ffurflen Caniatâd.
Cafwyd gwybodaeth ddiweddar yn nodi bod Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru wedi'u heithrio rhag y gofyniad i benodi Swyddog Diogelu Data.
Adran Archifau Cyngor Sir Gâr. Cytunwyd y dylai'r Clerc fynd â'r Cofnodion hyd at ddiwedd 2016 i'r Adran Archifau i'w cadw'n ddiogel.
Y Ffurflen Dreth Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.
Yr Archwiliad Mewnol. Trafodwyd Adroddiad yr Archwilydd mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Roedd yr holl brofion penodedig mewn perthynas â'r systemau rheoli mewnol wedi'u cwblhau mewn modd boddhaol, ac, o ganlyniad, nid oedd yna unrhyw faterion i'w dwyn i sylw'r Cyngor ar yr adeg honno. Anfoneb am y gwaith a wnaed gan yr Archwilydd Mewnol £195.00. Cytunwyd i'w thalu. Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i gwblhau. Ardystiwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, a llofnodwyd gan y Clerc. Cymeradwywyd gan y Cyngor a llofnodwyd gan y Cadeirydd.
Cynllunio.
Cais E/37305. Cais Cynllunio Llawn. Codi Adeilad/Gweithdy ar gyfer y Goedwigaeth yn Ysgubor Cwmifor. Ni wnaed unrhyw sylwadau.
Cais E/37280. Cais Cynllunio Llawn. Cais arfaethedig i godi gât pedair troedfedd newydd ar gyfer cerddwyr wrth Fwthyn Llangwm. Ni wnaed unrhyw sylwadau.
Nid oedd unrhyw fusnes arall, a daeth y cyfarfod i ben tua 10.10pm. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ysgol Gynradd Talyllychau nos Fawrth 3 Gorffennaf 2018 am 7.30pm.